



CYFRES YR HAF 2017



## Ffocws ar Fathemateg

Yr haf hwn yw'r ail dro y gall myfyrwyr sefyll y cymwysterau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg - Rhifedd newydd. Bydd nifer o'r myfyrwyr wedi sefyll y cymhwyster ym mis Tachwedd a byddant yn dychwelyd yr haf hwn gyda'r nod o wella eu graddau; bydd eraill yn sefyll y cymhwyster am y tro cyntaf. Hwn hefyd yw'r cyfle olaf i ailsefyll yr hen gymhwyster TGAU Mathemateg.

### Beth sy'n newydd?

Mae'r cymwysterau hyn wedi newid yn eithaf sylweddol o'r hen gymwysterau TGAU Mathemateg.

Yn ogystal â'r gwahaniaeth amlwg, sef bod dau gymhwyster yn lle un erbyn hyn, gall myfyrwyr ddewis cofrestru ar gyfer un o'r tair haen ganlynol: sylfaen, canolradd ac uwch.

Mae gan bob haen set wahanol o raddau sydd ar gael. Mae graddau D i G ar gael ar yr haen sylfaen, mae graddau B i E ar gael ar yr haen ganolradd ac mae graddau A\* i C ar gael ar yr haen uwch.

Oherwydd bod yr haenau hyn yn gorgyffwrdd (er enghraifft, mae graddau B a C ar gael ar gyfer yr haen ganolradd a'r haen uwch), bydd y papurau arholiad yn cynnwys rhywfaint o gwestiynau cyffredin. Mae CBAC yn defnyddio'r cwestiynau hyn er mwyn sicrhau bod y lefel anhawster i gyrraedd Gradd C, er enghraifft, yr un peth ni waeth pa haen a ddewiswyd.

Mae gwahaniaethau pwysig rhwng y cymwysterau hyn; er bod llawer o'r cynnwys yn gyffredin, mae rhai o'r sgiliau a asesir yn wahanol.

Mae TGAU Mathemateg-Rhifedd yn asesu'r fathemateg y bydd myfyrwyr yn ei defnyddio yn eu bywydau bob dydd, ym myd gwaith ac, mewn meysydd cyffredinol eraill o'r cwricwlwm. Nodwyd y gofynion hyn gan Lywodraeth Cymru yn ei Hadolygiad o Gymwysterau yn 2012.

Bydd TGAU Mathemateg, ar y llaw arall, yn ymestyn i agweddau ar fathemateg sydd eu hangen i fynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol, technegol neu fathemategol pellach. Mae'r gwahaniaethau'n golygu na ddylai myfyrwyr o reidrwydd ddisgwyl cael yr un radd yn y ddau gymhwyster.



CYFRES YR HAF 2017



## Pwy sy'n astudio'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Mae'r data cofrestriadau ar gyfer y ddau gymhwyster yn rhoi awgrym i ni o newidiadau mewn patrymau cofrestru, sy'n ddefnyddiol wrth ddehongli canlyniadau'r haf. Yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd mwy na 30,000 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar gyfer pob un o'r cymwysterau, gan gynrychioli'r rhan fwyaf o fyfyrwyr blwyddyn 11 yng Nghymru. Yr haf hwn, mae tua 25,500 o fyfyrwyr yn astudio TGAU Mathemateg, ac mae tua 20,500 yn astudio TGAU Mathemateg - Rhifedd.

Mae'r data cofrestriadau hefyd yn dangos i ni fod nifer fawr o gofrestrïadau gan ddysgwyr blwyddyn 10 yr haf hwn, o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol: mae 10,400 o fyfyrwyr blwyddyn 10 yn cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU Mathemateg ac

11,200 o fyfyrwyr blwyddyn 10 yn cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU Mathemateg - Rhifedd. Yn yr hen gymhwyster TGAU Mathemateg, roedd cofrestriadau o flwyddyn 10 wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gyda 9,300 o gofrestrïadau o flwyddyn 10 yn haf 2015.

Mae tua 5,000 o fyfyrwyr ôl-16 sy'n ailsefyll yr hen gymhwyster TGAU Mathemateg; hwn yw eu cyfle olaf i ailsefyll.

Nid oes strategaeth cofrestriadau 'gywir' ar gyfer pob myfyriwr, fodd bynnag mae'n bwysig eu bod wedi astudio cynnwys y cymhwyster a'u bod yn cael y cyfle gorau i gyflawni eu gradd orau posibl.

## Beth mae hyn yn ei olygu i'r canlyniadau yr haf hwn?

Mae'r patrymau cofrestru gwahanol hyn yn debygol o effeithio ar ganlyniadau mathemateg cyffredinol terfynol Cymru yr haf hwn. I'r ddau gymhwyster TGAU mathemateg, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr blwyddyn 10 fel cyfran o'r cofrestriadau cyffredinol ar gyfer yr haf. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn golygu y bydd y canlyniadau cyffredinol yr haf hwn yn is nag ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Bydd yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn yr haf hwn oherwydd y

newidiadau yn y garfan; bydd llawer o fyfyrwyr wedi cyflawni eu graddau ym mis Tachwedd 2016 ac ni fyddant yn sefyll arholiadau mathemateg yr haf hwn. Bydd angen cymryd gofal wrth ddehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf.


Bydd ein cymariaethau yn seiliedig ar y canlyniadau gorau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr sy'n gorffen blwyddyn 11 yr haf hwn; mae hyn yn golygu os cafodd dysgwyr radd well yn gynharach yn y cwrs, mai dyna'r radd y byddwn yn ei defnyddio ar gyfer cymharu â chanlyniadau blwyddyn 11 o flynyddoedd blaenorol.

Rhagor o wybodaeth:

[www.cymwysteraucymru.org](http://www.cymwysteraucymru.org)

E: [yholiadau@cymwysteraucymru.org](mailto:yholiadau@cymwysteraucymru.org)

Ff: 0333 077 2701

 @cymwysterau\_cym

